Cofrestr Dewis Tai Sir Gaerfyrddin

Ein polisi ar wneud cais am dŷ Cyngor a thŷ cymdeithas tai

COASTAL

Tai Cymdogaeth

Cymdeithas Tai Bro Myrddin
Bro Myrddin Housing Association

Cantref

Family Housing
Association (Wales) Ltd

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Cynnwys

Manylion y polisi hwn	3
Cofrestr Dewis Tai Sir Gaerfyrddin	4
Y cartref a gynigiwn i chi	8
Y cynllun pwyntiau	10
Gwybodaeth gyffredinol	15
Rôl cynghorwyr ac aelodau'r bwrdd	15
Atodiad 1 - Y gofrestr tai i'r henoed (tai lloches)	16

Yr ydym ni (Cyngor Sir Caerfyrddin a'r pum prif gymdeithas tai sy'n gweithio yn Sir Gaerfyrddin - Cymdeithas Tai Bro Myrddin, Cymdeithas Tai Teulu, Cymdeithas Tai Cantref, Tai Cymdogaeth a Dewi Sant) wedi cytuno ar y polisi hwn.

Defnyddiwyd yr un'rhestr gennym i gynnig cartrefi newydd i bobl ers 2001, ond yn awr byddwn yn defnyddio'r un polisi i benderfynu pwy gaiff gynnig tŷ. Bydd hyn, yn ogystal â gwell gwybodaeth ynghylch dyrannu'n tai, yn ei gwneud yn haws i chi ddeall y cyfle sydd gennych o gael tŷ mewn gwahanol rannau o'r sir. Mae Deddf Tai 1996, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Digartrefedd 2002, yn gofyn bod pob cyngor yn'rhoi blaenoriaeth'resymol i aelwydydd y nodwyd bod ganddynt yr anghenion tai mwyaf brys a/neu gyfansawdd. Mae'r polisi hwn yn nodi'r canllawiau a ddefnyddir gennym wrth gynnig tŷ yn Sir Gaerfyrddin.

Ein nod yw:

- eich trin yn deg;
- rhoi dewis o dai i chi, neu gyfle i fynegi eich blaenoriaethau o'ran y llety sydd i'w ddyrannu i chi;
- diwallu eich anghenion am dŷ;
- gwneud y defnydd gorau o'r tai sydd gennym;
- adeiladu cymunedau cryf a diogel sydd ar agor i bobl ar wahanol lefelau incwm ac o wahanol gefndiroedd;
- cynnig cartref parhaol i bobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref; a
- delio â'ch cais yn unol â gofynion Deddf Tai 1985, Deddf Tai 1996, Deddf Digartrefedd 2002, Deddf Troseddu ac Anrhefn 2003, Gorchymyn Pobl Ddigartref (Angen Blaenoriaeth)(Cymru) 2001, Cod Cynulliad Cymru ar'reoleiddio Cymdeithasau Tai ac unrhyw ganllawiau perthnasol eraill.
- Darparu gwybodaeth gyffredinol i chi, ar gais, ynghylch eich cais am dŷ.

Mae'r polisi hwn yn gymwys i bob cartref a feddwn yn Sir Gaerfyrddin, oni bai ein bod wedi cymeradwyo polisi lleol ar osod tai sy'n newid y polisi hwn mewn ardal benodol i gymryd amodau lleol i ystyriaeth. Byddwn yn cyflwyno polisi lleol o bosibl er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu i gael caniatâd cynllunio ar gyfer codi tai newydd. Cyn gallu cyflwyno polisi lleol ar osod tai'rhaid ymgynghori yn gyntaf â'r holl bobl berthnasol megis cynghorwyr, aelodau'r bwrdd, a'r rhwydwaith Cymunedol. Mae chwe'rhwydwaith cymunedol yn y Sir (Aman, Gwendraeth, Taf, Teifi, Tywi a Llanelli).'rydym wrthi yn datblygu'r rhwydweithiau hyn er mwyn helpu cymunedau i sicrhau ein bod i gyd yn gweithio gyda'n gilydd.

Byddwn yn adolygu'r polisi hwn bob blwyddyn er mwyn gwneud yn si'r ei fod yn cymryd y canlynol ystyriaeth:

- newidiadau yn y farchnad dai;
- y nodau a gyflwynir yn strategaethau tai pob un o aelodau'r bartneriaeth; a'n
- cynllun blynyddol ar gyfer ailgartrefu.

Rhestr o bobl sydd angen tŷ cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin yw'r Gofrestr Dewis Tai. Mae'r gofrestr yn cynnwys y canlynol:

- ceisiadau cyffredinol am dŷ;
- y gofrestr tai i'r anabl; a
- cheisiadau am dai lloches.

Rhaid i chi fod wedi ch cofrestru ar y Gofrestr Dewisiadau Tai cyn y gallwn gynnig tŷ i chi yn barhaol. Ni chewch wneud cais i fynd ar y gofrestr os yw unrhyw un o r canlynol yn wir yn eich achos chi:

- Eich bod dan 16 oed.
- Nad ydych wedi llwyddo ym mhrawf preswylio yr Undeb Ewropeaidd (nid yw hyn yn berthnasol i chi os ydych yn ffoadur neu os yw'r Swyddfa Gartref wedi'rhoi caniatâd i chi aros yn y DU).
- Nad oes hawl gennych i aros yn y wlad hon gan eich bod yn dod o un o r 10 gwlad sydd newydd ymuno â r Undeb Ewropeaidd (Y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Gwlad Pwyl, Gweriniaeth Slofacia, Slofenia, Cyprus a Malta).

Os yw un o'r canlynol yn wir yn eich achos chi neu aelod o'ch teulu pan fyddwch yn gwneud cais, efallai na allwn dderbyn eich cais, yn dibynnu ar eich sefyllfa:

- Rydych wedi cael problemau difrifol a pharhaus i dalu eich'rhent yn y gorffennol.
- Rydych wedi cynnwys gwybodaeth nad yw n wir yn eich ffurflen gais.
- Rydym wedi penderfynu na chewch fynd ar y gofrestr ar hyn o bryd oherwydd eich ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gorffennol (mae hyn yn gymwys i chi ac i aelodau ch teulu). Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys:
- bod yn boendod difrifol;
- aflonyddu ar bobl eraill; a
- defnyddio eich cartref ar gyfer puteindra, neu ar gyfer cyflenwi, ceisio cyflenwi, meddu ar neu ddefnyddio cyffuriau a'reolir

Os cawn ein bodloni eich bod chi, neu aelod o'ch teulu, wedi bod yn euog o ymddygiad annerbyniol digon difrifol fel eich bod yn anaddas i fod yn denant i ni, ac o dan yr amgylchiadau ar adeg ystyried eich achos, ein bodloni eich bod yn haeddu, yn sgîl yr ymddygiad hwnnw, cael eich trin fel person anghymwys i dderbyn llety neu na ddylid eich ystyried fel aelod o grŵp o bobl sydd i gael blaenoriaeth o dan ein cynllun dyrannu tai, byddwn yn ysgrifennu atoch i'roi gwybod i chi am y penderfyniad hwnnw, gan nodi'r sail ar ei gyfer.

Mae gennych hawl i ofyn am adolygu'r penderfyniad hwnnw ac i gael gwybod am benderfyniad yr adolygiad a'r sail ar ei gyfer.

Eich cais

I wneud cais am gael eich cynnwys ar y Gofrestr Dewis Tai, bydd angen i chi lenwi ffurflen gais a'i hanfon i un o'r cyfeiriadau a nodir y tu mewn i glawr y ffurflen gais. Os oes gennych flaenoriaethau o ran y llety sydd i'w ddyrannu i chi, dylech nodi hynny ar y ffurflen gais neu ar dudalen arall a atodwyd wrth y ffurflen gais.

Ar ôl derbyn eich cais, byddwn yn eich'rhoi ar y gofrestr tai cyn pen 10 diwrnod gwaith cyn belled â'ch bod wedi llenwi eich ffurflen gais yn gywir. Os'rhowch wybodaeth nad yw n wir i ni neu os nad ydych yn'rhoi r cyfan o r wybodaeth y mae ei hangen arnom i brosesu eich cais, gallwn gymryd camau yn eich erbyn a allai arwain at'roi dirwy i chi hyd at gyfanswm o £5,000, a gallech golli eich cartref os ail-gartrefwyd chi eisoes.

Rhaid i chi:

- ddweud wrthym os oes newid yn eich amgylchiadau;
- rhoi r wybodaeth y gofynnwyd amdani i ni; ac
- adnewyddu eich cais cyn pen pythefnos o'r dyddiad y gofynnwyd i chi wneud hynny.

Byddwn yn tynnu eich enw oddi ar y gofrestr os na wnewch hyn. Gellwch apelio i ni os na chytunwch â'n penderfyniad i ch tynnu oddi ar y gofrestr. Os dymunwch apelio,'rhaid i chi wneud hynny cyn pen 21 diwrnod o ddyddiad ein penderfyniad.

Tynnu eich enw oddi ar y gofrestr tai

Ni fyddwn yn tynnu eich enw yn barhaol oddi ar y gofrestr. Serch hynny, fe allwn dynnu eich enw am gyfnod hyd at ddwy flynedd. Wrth benderfynu ai tynnu eich enw oddi ar y gofrestr ai peidio, byddwn yn ystyried y canlynol:

- a oedd eich ymddygiad yn ddigon difrifol i ch gwneud chi, neu aelod o'ch teulu, yn anaddas fel tenant; ac
- a yw eich ymddygiad yn dal i fod yn annerbyniol.

Byddwn yn ystyried eich achos ac yn penderfynu ai tynnu eich enw oddi ar y gofrestr ai peidio. Os penderfynwn dynnu eich enw oddi ar y gofrestr oherwydd eich ymddygiad, byddwn yn tynnu eich enw am gyfnod hyd at ddwy flynedd os ydych wedi'rhoi gwybodaeth ffug i ni, ac am gyfnod hyd at 12 mis am'resymau eraill.

Byddwn yn ysgrifennu atoch i'roi gwybod i chi os ydym wedi penderfynu tynnu eich enw oddi ar y gofrestr dros dro. Yn y llythyr byddwn yn'rhoi gwybod i chi:

- pam yr ydym wedi tynnu eich enw oddi ar y gofrestr;
- am ba hyd yr ydym yn cadw eich enw oddi ar y gofrestr;
- y camau y mae n'rhaid i chi eu cymryd i gael eich enw yn ôl ar y gofrestr;
- sut i apelio yn erbyn ein penderfyniad;
- am eich hawl i ddod â chwmni i r gwrandawiad apêl i'ch cynrychioli; ac
- am enwau'r asiantaethau a all eich helpu i apelio yn erbyn ein penderfyniad.

Os ydym wedi tynnu eich enw oddi ar y gofrestr dros dro, mae hawl gennych i apelio yn erbyn ein penderfyniad.'rhaid i chi wneud hyn cyn pen 21 diwrnod o dderbyn ein llythyr yn dweud wrthych am ein penderfyniad.

Byddwn yn adolygu eich achos ar ddiwedd y cyfnod o dynnu eich enw oddi ar y gofrestr. Byddwn wedyn yn ystyried a fyddech yn awr yn denant addas. Byddwn yn'rhoi gwybod i chi am ein penderfyniad drwy lythyr.

Os ydym'rywdro wedi tynnu eich enw oddi ar y gofrestr tai, ac os ydym yn cynnig tŷ i chi, byddwn weithiau, o dan'rai amgylchiadau, yn gofyn i chi dderbyn cymorth tenantiaeth priodol, yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael. Os nad ydych yn derbyn y cymorth hwn, ni fyddwn yn medru cynnig tŷ i chi. Byddwn yn gofyn i chi dderbyn cymorth tenantiaeth, er enghraifft:

- os ydym wedi tynnu eich teulu oddi ar y gofrestr oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, a bod y person a achosodd yr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dal i fyw gyda chi; neu
- os yw eich teulu yn dal i gael problemau ôl-ddyledion'rhent (h.y. yn methu â thalu'r rhent)

Os ydych yn gwneud cais am symud o un tŷ cyngor neu dŷ cymdeithas dai i un arall, byddwn yn tynnu'ch enw oddi ar y gofrestr os gwelwn fod angen i chi dalu am waith atgyweirio yn eich cartref, oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Mewn amgylchiadau eithriadol (gweler tudalen 14) mae'n bosibl na fyddwn yn tynnu eich enw oddi ar y gofrestr.

Os ydych yn gwrthod tŷ a gynigiwyd i chi,'rhaid i chi'roi r'rhesymau dros hynny cyn pen pum niwrnod gwaith. Os na fyddwch yn'rhoi'rhesymau dilys, byddwn yn tynnu eich enw oddi ar y gofrestr am chwe mis. Cewch apelio yn erbyn hyn i'r Panel Apeliadau Gwahardd o'r Gofrestr.

Os ydych yn gwrthod dau gynnig'rhesymol o fewn 12 mis, mae n bosibl y byddwn yn eich tynnu oddi ar y gofrestr am chwe mis ac na fyddwn yn cynnig t arall i chi yn ystod y cyfnod hwnnw.

Ar ôl y cyfnod o chwe mis, byddwn yn'rhoi eich enw yn ôl ar y gofrestr tai.

'Cynnig rhesymol' yw cynnig tŷ sydd:

- o'r maint iawn i'ch teulu chi;
- yn cwrdd â safon y landlord o ran gosod tai (mae esboniad yn 'Maint y cartref rydyn ni'n ei gynnig i chi' ar dudalen 7);
- yn dŷ sydd wrth ymyl unrhyw help rydych chi ei angen. Mae hefyd yn rhoi sylw i unrhyw anghenion arbennig sydd gennych chi (fel cartref heb risiau neu gartref sydd wedi'i addasu);
- yn dŷ diogel rhag perygl trais; ac
- mewn ardal o'ch dewis chi. Os ydych chi'n ddigartref a bod dyletswydd gyfreithiol arnon ni i'ch ailgartrefu chi, efallai y byddwn ni'n cynnig t i chi y tu allan i'ch dewis ardaloedd os ydyn ni'n barnu bod hynny'n rhesymol.

Os ydym wedi ch tynnu oddi ar y gofrestr tai, ni fyddwn yn'rhoi unrhyw bwyntiau amser mewn angen i chi na phwyntiau cysylltiad lleol (gweler Y cynllun pwyntiau ar dudalen 10) yn ystod y cyfnod hwn. Ar ddiwedd y cyfnod hwn bydd angen i chi gymhwyso unwaith yn'rhagor i gael eich cynnwys cyn y yddwn yn eich'rhoi yn ôl ar y gofrestr.

Os ydych yn gwneud cais i gael eich cynnwys ar y gofrestr tai,'rhaid i ni:

- wrth dderbyn cais, ddarparu gwybodaeth gyffredinol i chi a fydd yn eich galluogi i asesu'r dull tebygol o drafod eich cais o dan ein cynllun dyrannu tai (gan gynnwys yn benodol a ydych yn debygol o gael eich ystyried fel aelod o grŵp o bobl sydd i gael blaenoriaeth o dan y cynllun);
- wrth dderbyn cais, ddarparu gwybodaeth gyffredinol i chi a fydd yn eich galluogi i asesu a yw llety priodol ar gyfer eich anghenion yn debygol o gael ei ddarparu i chi ac, os felly, pa mor hir mae'n debygol o fod cyn i lety o'r fath fod ar gael i'w ddyrannu i chi.
- rhoi gwybod i chi yn ysgrifenedig am unrhyw benderfyniad a wnawn;
- gadael i chi gael gweld unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch yr ydych chi wedi i'rhoi i ni;
- cadw eich cais yn gyfrinachol; a
- defnyddio gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais yn unig.

Mae gennych yr hawl i ofyn i ni'roi gwybod i chi am unrhyw benderfyniad ynghylch ffeithiau'ch achos sy'n debygol o fod, neu wedi cael eu hystyried wrth benderfynu a ddylid darparu llety ar eich cyfer.

Mae gennych hawl hefyd i ofyn am adolygu unrhyw benderfyniad o'r fath ac i gael gwybod am benderfyniad yr adolygiad a'r sail ar ei gyfer.

Mae gennych hawl hefyd i ofyn am adolygu penderfyniad eich bod yn anghymwys i dderbyn llety yn sgîl isadran (3) neu (5) o adran 160A o Ddeddf Tai 1996, ac i gael gwybod am benderfyniad yr adolygiad a'r sail ar ei gyfer.

Y cartref a gynigiwn i chi

Y math o gartref a gynigiwn i chi

Lle bo hynny'n ymarferol bosib, byddwn yn cynnig dewis o dai i chi, gan ystyried unrhyw flaenoriaethau'rydych wedi'u nodi ynghylch y llety sydd i'w ddyrannu i chi.

Bydd y math o gartref a gynigiwn i chi yn dibynnu ar amgylchiadau megis:

- maint eich teulu (gweler 'Maint y cartref a gynigiwn i chi' isod);
- a ydych chi neu aelod o'ch teulu yn anabl neu'n dioddef o gyflwr meddygol penodol; a'ch
- oedran chi ac oedran eich cymar.

Bydd y Cyngor a Chymdeithasau Tai yn dyrannu ein byngalos 1 a 2 ystafell wely, y fflatiau llawr gwaelod a luniwyd ar gyfer pobl hŷn ac eiddo sy'n'rhan o'r Cynllun Tai Lloches i bobl dros 60 (y Cyngor) a thros 55 (Cymdeithas Dai).

Os nad oes aelwydydd cymwys dros yr oedrannau hyn, gallwn ystyried aelwydydd iau ar gyfer ein byngalos 1 a 2 ystafell wely, fflatiau llawr gwaelod ac eiddo sy'n'rhan o'r Cynllun Tai Lloches.

Lle bo eiddo wedi'i addasu'n benodol at ddefnydd pobl ag anableddau h.y. llety a adeiladwyd at y diben; estyniad i ystafell wely neu ystafell ymolchi; cawod mynediad gwastad/llawr gwlyb ac ati (nid yw'r'rhestr hon yn cynnwys popeth) byddwn yn ei ddyrannu, heb ystyried oedran, i'r aelwyd a fyddai'n elwa fwyaf o'r addasiadau a ddarparwyd yn yr eiddo. Cyflawnir yr asesiad hwn gan therapydd galwedigaethol cymwys.

Maint y cartref a gynigiwn i chi

Ac eithrio'r cartrefi un a dwy ystafell wely a ddisgrifir uchod, bydd maint y cartref a gynigiwn i chi yn dibynnu ar faint eich teulu fel a ganlyn.

Mae angen i bob person gael un ystafell wely oni bai:

- eich bod yn bâr (ac eithrio pan fo'rhesymau meddygol neu gymdeithasol pam fod angen ystafell wely arall arnoch);
- bod gennych ddau o blant o'r un'rhyw dan 16 oed;
- bod gennych ddau o blant o wahanol'ryw dan 7 oed; neu
- bod plant o berthynas flaenorol yn aros gyda chi yn gyson (edrychir ar bob achos yn unigol).

Y cartref a gynigiwn i chi

Mae hyn yn golygu:

- y byddwn yn cynnig un ystafell byw-a-chysgu i chi os ydych yn berson sengl;
- y byddwn yn cynnig cartref i chi gydag un ystafell wely os ydych yn berson sengl neu'n bâr;
- y byddwn yn cynnig cartref i chi gyda dwy ystafell wely os ydych yn bâr neu'n deulu a bod angen dwy ystafell wely arnoch;
- y byddwn yn cynnig cartref i chi gyda thair ystafell wely os ydych yn deulu (ond nid yn bâr) a bod angen dwy neu dair ystafell wely arnoch; ac
- y byddwn yn cynnig cartref gyda phedair ystafell wely i chi os oes angen pedair ystafell wely ar eich teulu.

Os ydych yn feichiog, byddwn yn eich cyfrif fel dau berson.

Os nad oes unrhyw un ar y'rhestr sy'n bodloni'r amodau hyn, byddwn yn cynnig y cartref i gylch ehangach o bobl.

Ym mhle byddwn yn cynnig cartref i chi?

Gellwch wneud cais am gartref mewn cynifer o ardaloedd gosod ag y dymunwch, ond'rhaid i chi nodi'r rhain fesul ward o leiaf (cyfeirier at dudalen 4/5 o'r llyfryn Tai cymdeithasol ar'rent yn Sir Gaerfyrddin am'ragor o fanylion).

Grwpiau Blaenoriaeth'resymol

Wrth lunio'r Polisi Dyraniadau hwn, mae'r cyngor/cymdeithasau tai wedi sicrhau ystyriaeth ddigonol i'r grwpiau blaenoriaeth'resymol a nodwyd yn a.167(2) o Ddeddf Tai 1996. Y grwpiau blaenoriaeth'resymol yw:

- Pobl sy'n ddigartref, gan gynnwys pobl na fyddent yn flaenoriaeth a phobl sy'n ddigartref yn fwriadol
- Pobl y mae dyletswydd tuag atynt o dan ddeddfwriaeth ddigartrefedd
- Pobl sy'n byw mewn tai afiach neu orlawn, neu mewn amodau tai anfoddhaol eraill
- Pobl y mae angen iddynt symud ar sail feddygol neu les, gan gynnwys sail sy'n ymwneud ag anabledd
- Pobl y mae angen iddynt symud i ardal benodol yn y Sir, lle byddai methu â diwallu'r angen hwnnw'n achosi caledi
- Rhywun sydd ag angen penodol am lety sefydlog ar sail feddygol neu les, na ellir disgwyl yn'rhesymol iddynt ddod o hyd i lety sefydlog ar eu cyfer eu hunain yn y dyfodol'rhagweladwy

Defnyddiwn y cynllun pwyntiau i benderfynu pryd i gynnig cartref i chi. Pan'roddwn ni chi ar y gofrestr tai, byddwn yn'rhoi pwyntiau i chi yn unol â ch angen am dŷ (gweler Sut y'rhoddir pwyntiau ar dudalen 11). Po fwyaf o bwyntiau sydd gennych, uchaf yn y byd y byddwch ar y gofrestr. Pan ddaw tŷ yn wag byddwn fel arfer yn ei gynnig yn y lle cyntaf i'r person neu'r teulu sydd â'r nifer uchaf o bwyntiau ar gyfer y math hwnnw o dŷ.

Yr un yw'r drefn ar gyfer tai cyngor a thai cymdeithasau tai.

Serch hynny, mae'n bosibl na fyddwn yn cynnig y tŷ i chi:

- os oes arnoch chi rent i ni;
- os nad ydych wedi rhoi'r wybodaeth y mae ei hangen arnom; neu
- os nad yw'r tŷ yn addas ar gyfer eich anghenion chi.

Os oes gennych chi a'rhywun arall yr un nifer o bwyntiau, byddwn yn cynnig y ty i'r sawl sydd wedi bod hiraf ar y gofrestr.

Nid ydym yn defnyddio'r cynllun pwyntiau ar gyfer y grwpiau canlynol.

- Teuluoedd y mae angen iddynt symud oherwydd cynlluniau i ddymchwel neu i wella eu tai, neu lle mae eu cartref yn dod o dan orchymyn cau.
- Teuluoedd sydd â pherson ag anabledd ac y mae angen iddynt symud i gartref sydd wedi i adeiladu'n arbennig at y diben neu sydd wedi i addasu ar gyfer eu hanabledd.
- Teuluoedd y mae angen tai lloches arnynt. Mae hyn yn wir am'rai cynlluniau tai lloches yn unig (gweler atodiad 1).

Bydd y term "ymgeisydd" yn cynnwys pobl sengl a bydd y term "ymgeiswyr ar y cyd" fel arfer yn cynnwys cyplau lle gallai parau priod neu ddau gymar fod yn denantiaid ar y cyd. Mae'r term "aelwyd" yn cynnwys yr holl unigolion sy'n'rhan o gais yr ymgeisydd.

Gall aelwyd felly fod yn unigolyn, yn bâr, yn deulu neu'n ddau neu fwy o unigolion sy'n dymuno, neu y mae angen iddynt, fyw gyda'i gilydd yn y tymor hir. Cedwir eich manylion yn gyfrinachol, ac ni fyddant yn cael eu'rhannu gyda thrydydd parti (ac eithrio'r holl sefydliadau sy'n'rhan o'r Gofrestr Dewisiadau Tai) oni bai ein bod yn derbyn caniatâd yr ymgeisydd i wneud hynny.

Categori'r angen am dy	Y pwyntiau a'roddir a'r amgylchiadau

Tai anaddas

Gorlenwi	Rhoddir 20 pwynt i chi am bob ystafell wely ychwanegol y mae ei hangen ar eich teulu. Bydd menyw feichiog yn cael ei hystyried fel dau berson (diffinnir yr anghenion o'ran ystafelloedd gwely yn yr adran "maint y cartref a gynigir i ymgeiswyr")
Tanlenwi (byw mewn tŷ sy'n'rhy fawr i chi)	Os ydych yn denant i'r Cyngor neu Gymdeithas Dai yn Sir Gaerfyrddin ac'rydych am symud i gartref sydd â llai o ystafelloedd gwely, byddwn yn'rhoi 20 pwynt i chi am bob ystafell wely nad oes ei hangen arnoch.
Cyflwr eich tŷ	Byddwn yn'rhoi 5, 10 neu 15 pwynt i chi yn dibynnu ar gyflwr eich tŷ (gan gynnwys cyflwr iechydol eich cartref presennol) a'r diffygion o'ran cyfleusterau yn eich llety presennol. Os yw eich cartref yn anaddas i fyw ynddo yn ôl y gyfraith byddwn yn cyfeirio'r wybodaeth hon at Adain Gwasanaethau Preswyl y Cyngor, a fydd yn penderfynu pa gamau i w cymryd.
Rhannu cyfleusterau	Byddwn yn'rhoi 10 pwynt i chi os ydych yn'rhannu un neu fwy o'r cyfleusterau isod gydag unrhyw un arall sydd heb wneud cais am gael ei ailgartrefu gyda chi. • Ystafell fyw • Cegin • Ystafell ymolchi • Cawod • Toiled
Plant yn byw mewn fflat	Byddwch yn'rhoi 10 pwynt i chi am bob plentyn dan 7 oed sy'n byw mewn fflat neu fflat deulawr ar lawr uwch.

Anghenion Personol - Mae'r pwyntiau yn y categori hwn yn dibynnu ar ddifrifoldeb y broblem feddygol neu gymdeithasol.

Meddygol/Lles/Anabledd	Byddwn yn'rhoi 5, 10 neu 20 pwynt i chi os bydd un o'n swyddogion wedi argymell eich bod yn symud i gartref arall oherwydd eich iechyd neu anabledd. Bydd nifer y pwyntiau yn dibynnu ar faint byddai symud i gartref arall yn gwella eich iechyd, yn ei arbed'rhag gwaethygu neu'n ei gwneud yn haws i chi fyw gydag anabledd.
Cymdeithasol	Byddwn yn'rhoi 5, 10 neu 20 pwynt i chi os ydych wedi dangos i ni fod'rheswm cymdeithasol gennych dros symud i ffwrdd o r ardal lle'r ydych yn byw.
Cymorth neu ofal	Gallwn'roi 20 pwynt i chi os oes angen i chi symud yn agosach at berthynas i'roi cymorth neu i dderbyn cymorth.
Yr amser yr ydych wedi bod ar y gofrestr	Byddwn yn'rhoi 2 bwynt i chi am bob blwyddyn yr ydych wedi bod yn gymwys am d ac wedi bod yn aros am dŷ (hyd at 10 pwynt).
Addysg/Hyfforddiant	Byddwn yn'rhoi 10 pwynt i chi os gellwch ddangos i ni fod angen i chi symud i fanteisio ar gyfle o'ran addysg neu hyfforddiant.

Pwyntiau preswylio	Byddwn yn'rhoi 2 bwynt i chi am bob blwyddyn yr ydych wedi byw yn Sir Gaerfyrddin (hyd at 10 pwynt). Byddwn yn'rhoi 1 pwynt y flwyddyn i chi (hyd at 5 pwynt) os ydych yn byw y tu allan i r sir ond bod cysylltiad lleol gennych. Mae gennych gysylltiad lleol: • os ydych wedi byw yn Sir Gaerfyrddin am 6 o r 12 mis diwethaf, neu 3 o'r 5 mlynedd diwethaf; • os ydych yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin; neu • os yw eich teulu agos (rhieni, plant, brodyr neu chwiorydd) yn byw yn Sir Gaerfyrddin. Ni fyddwn yn'rhoi pwyntiau preswylio i chi os ydych yn byw y tu allan i'r sir a heb unrhyw gysylltiad lleol.
Cysylltiad lleol	Pan ddaw ty yn wag, byddwn yn'rhoi 2 bwynt i chi am bob blwyddyn yr ydych wedi byw yn ardal'rhwydwaith cymunedol y tŷ (hyd at 2 pwynt). Yr ardaloedd hyn yw Aman, Gwendraeth, Taf, Teifi, Tywi a Llanelli.
Eich teulu	Byddwn yn'rhoi 10 pwynt i chi: • os ydych wedi bod yn byw gyda ch'rhieni gydol y ddwy flynedd diwethaf; • os ydych yn 18 oed neu'n hŷn; • os nad ydych yn'rhentu nac yn berchen ar dŷ; ac • os nad ydych yn prynu tŷ.

Anghenion ariannol

Incwm isel	Byddwn yn'rhoi 10 pwynt i chi os ydych ar incwm isel. Rydych ar incwm isel os ydych yn derbyn un o'r canlynol. • Budd-dâl Tai • Cymhorthdal Incwm • Credyd Teulu • Lwfans Gweithio i r Anabl • Credyd Treth Person Anabl. • Budd-dâl Treth y Cyngor • Credyd Treth Gwaith • Lwfans Ceisio Gwaith
Cyflogaeth	Byddwn yn'rhoi 10 pwynt i chi os gellwch ddangos i ni fod angen i chi symud i dderbyn gwaith, neu i barhau i weithio.

Digartrefedd neu mewn perygl o fod yn ddigartref

Digartrefedd	Lle'r asesir bod gennych angen blaenoriaeth, byddwn yn'rhoi 80 pwynt i chi os ydym wedi'ch derbyn fel person digartref neu os oes dyletswydd arnom ni neu unrhyw awdurdod lleol arall i sicrhau bod llety ar gael ar gyfer eich galwedigaeth (boed hynny dros dro neu yn barhaol). Os ydych yn aros gyda theulu neu ffrindiau, byddwn yn'rhoi 10 pwynt arall i chi am'rannu cyfleusterau. Ni fyddwn yn'rhoi unrhyw bwyntiau eraill i chi o dan yr amgylchiadau hyn.

Digartrefedd	Os daw cartref yn wag a bod yr un nifer o bwyntiau gan eich teulu chi â theulu arall sydd hefyd yn ddigartref, byddwn yn cynnig y cartref i'r sawl a symudodd i lety dros dro, neu a dderbyniwyd fel person digartref gyntaf. Mae gan y bobl ganlynol angen blaenoriaeth: • menyw feichiog neu'rywun y mae hi'n byw gyda'nhw neu y gellid disgwyl yn'rhesymol iddi fyw gyda'nhw • person y mae plant dibynnol yn byw gydag ef/gyda hi neu y gellid disgwyl yn'rhesymol iddynt wneud hynny • person sy'n agored i niwed o ganlyniad i henaint, salwch meddwl neu anfantais neu anabledd corfforol neu'reswm arbennig arall, neu'rywun y mae person o'r fath yn byw gydag ef/gyda hi neu y gellid disgwyl yn'rhesymol iddynt wneud hynny • person sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref o ganlyniad i argyfwng megis llifogydd, tân neu drychineb arall • pawb sy'n 18 oed neu'n h n ac o dan 21 os ydynt, ar unrhyw adeg yn ystod eu plentyndod, wedi bod yn derbyn gofal, llety neu wedi cael eu maethu, neu mewn perygl penodol o gael eu hecsbloetio'n'rhywiol neu'n ariannol •'rhai 16 a 17 oed • pobl sy'n ffoi'rhag trais yn y cartref neu berygl hynny • pobl sy'n gadael y lluoedd arfog • cyn-garcharorion, pobl ddigartref sy'n cael eu'rhyddhau o'r carchar, sydd â chysylltiad lleol Os ydych yn ddigartref ond heb fod ag angen blaenoriaeth byddwn yn'rhoi 25 pwynt i chi, yn ogystal ag unrhyw bwyntiau eraill y gallwch eu hawlio yn ôl eich amgylchiadau tai presennol. Os ydych wedi'ch gwneud eich hun yn ddigartref yn fwriadol neu os nad oes gennych "gysylltiad lleol" (gweler tudalen 13) byddwn yn'rhoi 10 pwynt i chi, yn ogystal ag unrhyw bwyntiau eraill y gallwch eu hawlio yn ôl eich amgylchiadau tai presennol.
Mewn perygl o fod yn ddigartref	Byddwn yn'rhoi 40 pwynt i chi os oes gennych denantiaeth fyrddaliol sicr, eich bod wedi derbyn llythyr yn gofyn i chi adael, a bod gennych angen blaenoriaeth. Byddwn yn rhoi 5 pwynt i chi os ydych mewn perygl o fod yn ddigartref. Er enghraifft: • os ydych yn byw mewn tŷ sy'n glwm i ch gwaith; neu • os nad oes gennych unman lle'r ydych fel arfer yn byw (mae hyn yn gymwys i bobl sengl yn unig).
Symud ymlaen	Byddwn yn'rhoi 85 pwynt i chi os ydych yn byw mewn tŷ â chymorth dros dro am'resymau meddygol neu'resymau lles ac: • rydym wedi cynnwys y prosiect tai â chymorth yn ein 'strategaeth symud ymlaen'; ac • rydym o r farn eich bod yn barod i symud ymlaen. Ni fyddwn yn'rhoi unrhyw bwyntiau eraill i chi o dan yr amgylchiadau hyn. Mae'n'rhaid i asesiad ddangos bod gennych flaenoriaeth angen er mwyn cael y pwyntiau hyn.

Amgylchiadau eithriadol	Mae'n bosibl y bydd Pennaeth Gwasanaethau Tai yn y cyngor neu gymdeithas tai yn'rhoi 90 pwynt i chi mewn amgylchiadau eithriadol lle mae angen i chi symud i gartref arall yn ddiymdroi. Gallai hyn ddigwydd o bosibl os ydych chi neu'ch teulu, er enghraifft: • yn dioddef aflonyddu difrifol; • yn cael eich bygwth neu n dioddef trais; neu • yn y Cynllun Diogelu Tystion. Bydd y swyddog sy'n delio â'r achos yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai perthnasol, a bydd yr aelod o'r bwrdd gweithredol dros faterion tai a chadeiryddion byrddau cymdeithasau tai yn cael gwybod am y penderfyniad yn gyfrinachol, lle bo hynny'n briodol.

Os ydych wedi gwneud eich amgylchiadau n waeth drwy symud, gallwn asesu eich cais fel petaech yn dal i fyw yn eich hen gyfeiriad. Gallwn wneud hyn am hyd at 12 mis o'r dyddiad pan symudoch chi.

Er enghraifft, gallwn wneud hyn os yw eich tenantiaeth wedi dod i ben neu os bu i chi symud allan o'ch cartref heb'reswm da. Os gorfodwyd chi i symud allan o'ch cartref oherwydd trais neu ofn gwirioneddol eich bod yn mynd i ddioddef trais, yna ni fyddwn yn ystyried eich bod wedi gwneud eich amgylchiadau yn waeth yn fwriadol.

Mae'r cyngor a'r cymdeithasau tai yn cadw'r hawl i addasu'r pwyntiau a'roddir am unrhyw ffactor yn y cynllun pwyntiau er mwyn cyflawni nodau'r cynllun dyrannu'n well neu sicrhau cydbwysedd tecach o ddyraniadau. Os bu newid yn eich pwyntiau, byddwn yn ysgrifennu atoch i'roi gwybod i chi am y newidiadau.

Adolygu'r pwyntiau a'roddwyd gennym

Os ydych yn anhapus â'r nifer o bwyntiau a roddwyd i chi, gellwch ofyn i ni adolygu ein penderfyniad, ond rhaid i chi wneud hynny cyn pen 21 diwrnod o dderbyn ein penderfyniad. Gallwn ymestyn y cyfnod hwn mewn'rhai amgylchiadau. Pan fyddwch yn gofyn i ni am adolygiad,'rhaid i chi nodi yn ysgrifenedig pam mae ein penderfyniad yn anghywir yn eich barn chi.

Byddwn yn adolygu ein penderfyniad gwreiddiol, ac yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi beth yw canlyniad yr adolygiad. Byddwn yn'rhoi gwybod i chi beth yw ein penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

Ni ellwch apelio eto os ydych yn anhapus â chanlyniad yr adolygiad.

Byddwn yn rhoi gwybodaeth gyffredinol i chi am eich safle ar y gofrestr a pha mor debygol yw hi y daw cartref yn wag. Bydd y wybodaeth yn gywir ar y dyddiad pan roddir hi i chi. Serch hynny, gellid rhoi mwy o bwyntiau nag sydd gennych chi i bobl eraill sy'n gwneud cais am gartref ar ôl i chi derbyn y wybodaeth, a byddai hynny yn newid eich safle ar y gofrestr.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau i'r system pwyntiau o fewn cyfnod rhesymol, neu pan wnawn ein hadolygiad blynyddol o ch cais.

Gwneud cwyn

Os ydych yn anhapus â r modd yr ydym wedi delio â'ch cais, gellwch gwyno wrth unrhyw un o'r chwech landlord yn y Gofrestr Dewisiadau Tai.

Mynediad at Wybodaeth

Gellwch gyflwyno cais drwy lythyr i gael copi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch ar y gofrestr. Byddwn yn'rhoi'r wybodaeth honno i chi, yn ddi-dâl, cyn pen 40 diwrnod o dderbyn eich llythyr. Y'rheswm am y 40 diwrnod yw bod yn'rhaid i ni ofyn am ganiatâd y bobl a'roddodd y wybodaeth i ni.

Byddwn yn ymdrin â'ch gwybodaeth yn unol â Deddf Mynediad i Ffeiliau Personol a Deddf Diogelu Data 1998.

Rôl cynghorwyr ac aelodau'r bwrdd

Prif'rôl cynghorwyr ac aelodau bwrdd cymdeithasau tai yw cymeradwyo r polisi hwn ar wneud cais am dai cymdeithasol, ein cynllun ailgartrefu blynyddol, ac unrhyw newidiadau a wneir gennym i'r cynllun hwnnw.

Rydym yn ymgynghori â chynghorwyr ac aelodau bwrdd cymdeithasau tai am y'rheswm dros gael polisïau lleol ar osod tai yn eu wardiau hwy, a chynnwys y polisïau hynny.

Efallai y bydd cynghorwyr ac aelodau'r bwrdd yn cyfeirio gwybodaeth amdanoch ymlaen at y staff sy'n gyfrifol am gynnal y gofrestr. Os byddant yn cymryd eich gwybodaeth i ystyriaeth pan fyddant yn eich ystyried ar gyfer ailgartrefu, byddwn yn cofnodi'r wybodaeth honno ar ein system gyfrifiadurol. Os yw'r wybodaeth hon yn gyfrinachol iawn, byddwn yn ei chyfeirio at swyddog penodol y landlord i ymdrin â hi. Os oes gennym wybodaeth a fyddai'n effeithio ar eich cais, bydd angen i gyrff eraill ategu'r wybodaeth honno a i chadarnhau, (er enghraifft yr heddlu).

Atodiad 1: Y gofrestr tai i'r henoed (tai lloches)

Mae'r gofrestr tai i'r henoed (tai lloches) yn gyfle i ni sicrhau tai lloches priodol ar gyfer yr henoed. Tai lloches yw tai i'r henoed sy'n rhannu rhai cyfleusterau ac sydd â warden yn byw ar y safle. Mae'n cynnwys fflatiau sy'n gysylltiedig â chartref gofal preswyl sy'n'rhannu'rhai o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau.

Lle bo cynlluniau'n cynnig gofal ychwanegol ar gyfer pobl oedrannus fregus, gwneir y gosodiadau hyn ar y cyd â'r Is-adran Gwasanaethau Oedolion a'r asiantaethau partner perthnasol.

Gallwn eich'rhoi ar y gofrestr tai i'r henoed os ydych:

- dros 60 oed (ar gyfer tŷ cyngor);
- dros 55 oed (ar gyfer tŷ cymdeithas tai); neu
- mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl y cynigir tai lloches i bobl sydd ag anabledd penodol a fyddai'n cael budd o r cyfleusterau.

Os nad oes unrhyw un dros 55 neu 60 oed ar y'rhestr am dŷ gwag penodol, gallwn gynnig y tŷ hwnnw rai o dan yr oedrannau hyn rhoddir blaenoriaeth i bobl sydd eisoes yn byw yn Sir Gaerfyrddin. Serch hynny, byddwn hefyd yn ystyried eich cais os oeddech yn arfer byw yn Sir Gaerfyrddin, neu os oes gennych berthnasau neu gyfeillion agos sy'n byw yma ac a all roi cymorth i chi. Hyd yn oed os nad oes cysylltiad gennych â'r ardal, gellwch wneud cais.

Os'rhown eich enw ar y gofrestr, gallwn roi 5 pwynt yr un i chi am bob un o'r canlynol. (Nid yw'r pwyntiau hyn yn cyfrif ond ar gyfer tai lloches.)

- Os ydych yn cael anhawster cyrraedd cyfleusterau lleol, megis siopau, eich meddyg ac yn y blaen.
- Os ydych yn cael anhawster clywed neu anhawster gweld.
- Os ydych yn cael anhawster dringo'r grisiau yn eich cartref.
- Os ydych yn cael anhawster defnyddio cyfleusterau hylendid personol, megis baddon, cawod, toiled.
- Os ydych yn cael anhawster gofalu amdanoch eich hun (cadw'n gynnes a bwyta'n iawn).
- Os ydych yn cael anhawster cadw'r lle'n gynnes.
- Os yw meddyg neu nyrs yn ymweld â chi yn gyson neu os ydych yn mynd i ganolfan ddydd neu ysbyty yn gyson.
- Os ydych yn byw mewn tŷ neu fflat llawr uwch ond bod angen i chi fyw ar y llawr gwaelod.
- Os byddwch yn rhoi'r gorau i dŷ cyngor neu dŷ cymdeithas tai sy'n ddigon mawr i deulu.
- Os ydych yn byw mewn tŷ neu fflat llawr uwch ond bod angen i chi fyw ar y llawr gwaelod.
- Os byddwch yn rhoi'r gorau i dŷ cyngor neu d cymdeithas tai sy'n ddigon mawr i deulu.
- Os ydych yn byw mewn cartref symudol.
- Os oes angen gwneud llawer o waith atgyweirio ar eich cartref.
- Os nad ydych yn byw'n agos at eich perthnasau neu gyfeillion.
- Os yw'n anodd cyrraedd eich cartref.
- Os oes gennych broblemau iechyd meddwl.
- Os ydych yn derbyn Lwfans Gweini.

Hefyd byddwn yn'rhoi 20 pwynt i chi:

- os bydd ailgartrefu yn golygu y gellwch adael ysbyty neu'n golygu na fyddai'n rhaid i chi fynd i gartref preswyl; neu
- os oes materion 'amddiffyn oedolion hawdd eu niweidio' yn codi. I gael'rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Is-adran Gwasanaethau Oedolion yr Adran Gofal Cymdeithasol a Thai (**Caerfyrddin 01267 224421, Dinefwr 01558 825371 a Llanelli 01554 779621**).

Po fwyaf o bwyntiau sydd gennych, uchaf yn y byd y byddwch ar y gofrestr tai i'r henoed. Os daw ty lloches yn wag, byddwn yn ei gynnig yn gyntaf i r person sydd â'r nifer uchaf o bwyntiau, ac yn nhrefn dyddiadau os oes gan fwy nag un yr un nifer o bwyntiau.

Mwy o wybodaeth

Mae gwybodaeth are sut gallwch gyflwyno cais am Dy sy'n eiddo i'r Cyngor neu Gymdeithas Tai are gael ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin yn **www.sirgar.gov.uk** drwy ddilyn y ddolen Newyddion Tai a Cyflwyno cais am Dy Cyngor neu Dy Cymdeithas Tai .

Mae'r dogfennau canlynol ar gael i'w darllen a'u lawrlwytho:

- Stoc y Sector'rhentu Cymdeithason yn Sir Gaerfyrddin
- Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer llenwi'r Ffurflen Gais – Tai
- Tai Lloches yn Sir Gaerfyrddin
- Safonau eich Gwasanaeth
- Cwestiynau Cyffredin
- Ffurflen Gais – Tai

Mae'r Ffurflen Gais hefyd ar gael i'w llenwi ar-lein.

Gallwch hefyd edrych ar y Gofrestr Gyfnewid ar-lein, sy'n ffordd effeithiol o drefnu i symud eich hunan, heb aros ar y'rhestr drosglwyddo.

Of hoffech gael y llyfryn hwn mewn print bras, mewn Braille neu ar dap sain ffoniwch 01267 228867.